

Cwestiynau Ysgrifenedig a Atebwyd o 22 i 29 Mehefin 1999

Answers to Written Questions from 22 to 29 June 1999

[R] yn dynodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant

[R] signifies the Member has declared an interest

Cynnwys

Contents

- 1 Cwestiynau i'r Prif Ysgrifennydd
Questions to the First Secretary
- 4 Cwestiynau i'r Ysgrifennydd Datblygu Economaidd
Questions to the Secretary for Economic Development
- 6 Cwestiynau i'r Ysgrifennydd Amaethyddiaeth a Datblygu Gwledig
Questions to the Secretary for Agriculture and Rural Development
- 7 Cwestiynau i'r Ysgrifennydd Addysg a Hyfforddiant Ôl-16
Questions to the Secretary for Post-16 Education and Training
- 8 Cwestiynau i'r Ysgrifennydd Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
Questions to the Secretary for Health and Social Services
- 11 Cwestiynau i Ysgrifennydd yr Amgylchedd a Llywodraeth Leol
Questions to the Secretary for the Environment and Local Government

Cwestiynau i'r Prif Ysgrifennydd Questions to the First Secretary

Disabled People and Employment

Nick Bourne: What policies will the First Secretary put in place in Wales to work towards the Government's target of increasing the number of disabled people in employment? (WAQ320JS)

The First Secretary: The National Assembly Cabinet will support the Government's policies to protect disabled people from discrimination in the workplace; to promote more equal opportunities and to tackle the barriers which disabled people face in seeking work and remaining in employment. These policies include:

- the introduction of comprehensive and enforceable civil rights through the implementation of the Disability Discrimination Act and the establishment of a Disability Rights Commission. There will be a Commission office in Wales;
- the introduction of the new disabled persons tax credit to replace disability working allowance from October 1999. This will make work pay for people with a long-term illness or disability;
- reforms to the benefits system to remove disincentives to work. These include reforms to the 'All Work Test'; the removal of restrictions on voluntary work and changes to benefit linking rules;
- direct help for disabled people in finding and keeping work through the Governments' welfare to work policies. This includes the new deal for disabled people personal adviser service which is being piloted in the eastern Valleys of south Wales and a number of innovative projects, including those being delivered by the Leonard Cheshire Foundation and the Shaw Trust in Wales, which encourage job retention;
- the introduction of 'ONE' (Single Work Focused Gateway) pilots which will provide all people of working age, including people who have long-term illness or disability, with work related interviews when they make a claim for benefits. 'ONE' will be piloted in south-east Gwent from November 1999;
- the promotion and recognition through the disability symbol of good practice by employers in employing disabled people;
- the support of the Employment Service's disability service teams and access to a range of specialist programmes such as employment assessment; work preparation; job introduction scheme; access to work and supported employment.

In addition, the Assembly Cabinet will seek to ensure immediate access to its training and guidance programmes for people with disabilities and will take action through its other policies and programmes to promote social inclusion and the employment of disabled people.

The Assembly's Committee on Equality of Opportunity will be responsible for monitoring and reporting on the performance of the Assembly in ensuring that its functions are exercised with due regard to the principle of equality of opportunity for all people.

Pobl Anabl a Gwaith

Nick Bourne: Pa bolisiau y bydd y Prif Ysgrifennydd yn eu gweithredu yng Nghymru er mwyn gweithio tuag at darged y llywodraeth i gynyddu nifer y bobl anabl sydd mewn gwaith? (WAQ320JS)

Y Prif Ysgrifennydd: Bydd Cabinet y Cynulliad Cenedlaethol yn cefnogi polisïau'r Llywodraeth i amddiffyn pobl anabl rhag gwahaniaethu yn y gweithle; i hyrwyddo cyfleoedd mwy cyfartal ac i fynd i'r afael â'r rhwystrau a wynebir gan bobl anabl wrth geisio sicrhau gwaith ac aros mewn gwaith. Mae'r polisïau hyn yn cynnwys:

- cyflwyno hawliau sifil cynhwysfawr a gorfodadwy trwy weithredu'r Ddeddf Gwahaniaethu ar Sail Anabledd a sefydlu Comisiwn Hawliau Anabledd. Bydd gan y Comisiwn swyddfa yng Nghymru;
- cyflwyno credyd treth newydd i bersonau anabl yn lle'r lwfans gweithio i'r anabl o fis Hydref 1999 ymlaen. Bydd hyn yn gwneud i waith dalu i bobl sydd â salwch neu anabledd hirdymor;
- diwygio'r system fudd-daliadau fel nad yw'n annog pobl i beidio â gweithio. Bydd hyn yn cynnwys diwygio'r 'All Work Test', cael gwared â'r cyfyngiadau ar waith gwirfoddol a newidiadau i'r rheolau cysylltu budd-daliadau;
- help uniongyrchol i bobl anabl i ganfod a chadw gwaith trwy bolisiau 'o fudd-dâl i waith' y Llywodraeth. Mae hyn yn cynnwys gwasanaeth ymgynghorydd personol y fargen newydd i bobl anabl, sydd ar brawf yng Nghymoedd dwyreiniol de Cymru, a nifer o brosiectau arloesol, gan gynnwys y rheini sy'n cael eu cyflwyno gan Sefydliad Leonard Cheshire ac Ymddiriedolaeth Shaw yng Nghymru, sy'n annog cadw swyddi;
- cyflwyno cynlluniau peilot 'ONE' (Single Work Focused Gateway) a fydd yn darparu cyfweiliadau yn ymwneud â gwaith ar gyfer pob person o oed gwaith, gan gynnwys pobl sydd â salwch neu anabledd hirdymor, pan fyddant yn gwneud cais am fudd-dâl. Bydd 'ONE' ar brawf yn ne-ddwyrain Gwent o fis Tachwedd 1999 ymlaen;
- trwy'r symbol anabledd, hyrwyddo a chydabod ymarfer da gan gyflogwyr o ran cyflogi pobl anabl;
- cefnogaeth timau gwasanaeth anabledd y Gwasanaeth Cyflogi, ynghyd â'r gallu i gyrchu at amrediad o raglenni arbenigol megis asesiad cyflogaeth; paratoi ar gyfer gwaith; cynllun cyflwyno swyddi; mynediad i waith a chyflogaeth gyda chymorth.

Yn ogystal, bydd Cabinet y Cynulliad yn ceisio sicrhau bod pobl ag anableddau yn gallu cyrchu at ei raglenni hyfforddi a chyfarwyddyd yn syth a bydd yn gweithredu drwy ei bolisiau a'i raglenni eraill i hybu cynhywso cymdeithasol a chyflogi pobl anabl.

Pwyllgor Cyfle Cyfartal y Cynulliad fydd yn gyfrifol am fonitro ac adrodd ar berfformiad y Cynulliad wrth sicrhau bod ei holl swyddogaethau yn cael eu cyflawni, gan roi'r sylw dyledus i'r egwyddor o gyfle cyfartal i bawb.

Royal Welsh Show (Camp Site Planning Appeal)

Nick Bourne: Has any planning appeal been received for consideration by the Assembly in relation to the unsuccessful application for a camp site at the time of the Royal Welsh Show in Llanellwedd, Powys. (WAQ348VB)

The First Secretary: No appeal has so far been received.

Y Sioe Frenhinol (Apêl Cynllunio Safle Gwersylla)

Nick Bourne: A yw'r Cynulliad wedi derbyn apêl cynllunio i'w hystyried mewn perthynas â'r cais aflwyddiannus am safle gweryslla adeg y Sioe Frenhinol yn Llanelwedd, Powys? (WAQ348VB)

Y Prif Ysgrifennydd: Hyd yma, ni dderbyniwyd apêl.

Security Staff (Assembly Building)

Jenny Randerson: How many people are currently employed as security staff in the Assembly building? How many people responded to the initial advert? Did the original advertisement specify that the ability to speak Welsh was desirable? How many people currently employed as security staff are able to speak Welsh? (WAQ313AG)

The First Secretary: When the National Assembly takes on the responsibilities it inherits from the Welsh Office it will have in its employ 32 security staff, 22 of them located in the Assembly building. Fifty-eight people applied for jobs as security guards as a result of the recent advertisement that indicated that the ability to speak Welsh was desirable. Six of the security staff we currently employ describe their oral Welsh as 'good' and two as 'fair'. Five Welsh speaking security staff are currently deployed in the Assembly building.

Staff Diogelwch (Adeilad y Cynulliad)

Jenny Randerson: Faint o bobl sy'n cael eu cyflogi fel staff diogelwch ar hyn o bryd yn adeilad y Cynulliad? Faint o bobl ymatebodd i'r hysbyseb gychwynnol? A wnaeth yr hysbyseb wreiddiol bennu bod y gallu i siarad Cymraeg yn ddymunol? Faint o bobl sy'n cael eu cyflogi ar hyn o bryd fel staff diogelwch sy'n gallu siarad Cymraeg? (WAQ313AG)

Y Prif Ysgrifennydd: Wedi i'r Cynulliad Cenedlaethol ymgymryd â'r cyfrifoldebau y mae i'w hetifeddu oddi wrth y Swyddfa Gymreig, bydd ganddo 32 swyddog diogelwch yn ei gyflogaeth, 22 ohonynt wedi eu lleoli yn adeilad y Cynulliad. Ymgeisiodd 58 o bobl am swyddi fel swyddogion diogelwch yn sgîl hysbyseb ddiweddar a nodai bod y gallu i siarad Cymraeg yn ddymunol. Mae chwech o'r staff diogelwch a gyflogir gennym ar hyn o bryd yn dweud bod eu Cymraeg llafar yn 'dda' a dau'n dweud ei fod yn 'weddol'. Mae pum swyddog diogelwch sy'n siarad Cymraeg yn gweithio yn adeilad y Cynulliad ar hyn o bryd.

Bypass (Sageston-Redberth)

Nick Bourne: What proposals are there to bypass Sageston-Redberth on the A477 or what assessments has the First Secretary made on the need for one? (WAQ291JS)

The First Secretary: The report on the review of the forward trunk road programme 'Driving Wales Forward' published in July last year confirmed that the proposed A477 Sageston-Redberth Bypass would have to await the outcome of an integrated transport corridor study of the A40 west of St Clears which included the A477. The statutory procedures for the scheme are complete except for the actual making of the orders. The report on the corridor study was published on 15 June. This found that, although there would be significant benefits to be gained from investments in public transport options, there would still be the need to provide good road infrastructure. The Assembly will now have to decide what resources to devote to this and other trunk road schemes in south-west Wales and to what standards they should be built.

Ffordd Osgoi (Sageston-Redberth)

Nick Bourne: Pa gynigion sydd yna ar gyfer ffordd i osgoi Sageston-Redberth ar yr A477 neu pa asemiadau y mae'r Prif Ysgrifennydd wedi'u gwneud o'r angen am ffordd osgoi? (WAQ291JS)

Y Prif Ysgrifennydd: Yn yr adroddiad ar yr adolygiad o'r rhaglen gefnffyrdd i'r dyfodol, 'Gyrru Cymru Ymlaen', a gyhoeddwyd fis Gorffennaf y llynedd, cadarnhawyd y byddai'n rhaid i'r Ffordd Osgoi arfaethedig ar yr A477 (Sageston-Redberth) ddisgwyl hyd nes y byddai canlyniad yr astudiaeth goridor i drafnidiaeth integredig ar yr A40 i'r gorllewin o Sanclêr, sy'n cynnwys yr A477, yn hysbys. Mae'r gweithdrefnau statudol ar gyfer y cynllun wedi eu cwblhau ar wahân i wneud y gorchmynion. Cyhoeddwyd yr adroddiad ar yr astudiaeth goridor ar 15 Mehefin. Canfu'r astudiaeth, er y gellid sicrhau manteision sylweddol drwy fuddsoddi mewn opsiynau cludiant cyhoeddus, y byddai angen darparu seilwaith ffyrdd da o hyd. Bydd yn rhaid i'r Cynulliad yn awr benderfynu pa adnoddau i'w neilltuo i'r cynllun hwn a chynlluniau cefnffyrdd eraill yn ne-orllewin Cymru ac i ba safonau y dylid eu codi.

Cwestiynau i'r Ysgrifennydd Datblygu Economaidd Questions to the Secretary for Economic Development

New Investment and Jobs (Ystradgynlais)

Kirsty Williams What progress has been made in securing new investment and jobs to the Ystradgynlais area of the Upper Swansea Valley? (WAQ337VB)

The Secretary for Economic Development (Rhodri Morgan): Efforts to attract both inward investment and to encourage homegrown company projects in the Ystradgynlais area, have been stepped up since the closure announcement concerning the Lucas Varsity plant. Discussions are continuing but so far without a successful conclusion.

Buddsoddiad a Swyddi Newydd (Ystradgynlais)

Kirsty Williams: Pa gynnydd sydd wedi'i wneud er mwyn sicrhau buddsoddiad a swyddi newydd i ardal Ystradgynlais ym Mlaenau Cwm Tawe? (WAQ337VB)

Yr Ysgrifennydd Datblygu Economaidd: (Rhodri Morgan): Mae'r ymdrechion i ddenu mewnffuddsoddiad ac i annog prosiectau gan gwmnïau cynhenid yn ardal Ystradgynlais wedi dwysáu ers y cyhoeddiad bod gwaith Lucas Varsity i gau. Mae'r trafodaethau'n parhau ond heb ganlyniad llwyddiannus hyd yma.

Funds for Young Entrepreneurs

Mick Bates: What funds are available to provide starter business units and venture capital for young entrepreneurs in rural Wales? (WAQ341JS)

Rhodri Morgan: Small business units are provided in rural Wales by a number of agencies including the Welsh Development Agency, the local authorities and enterprise agencies, often with the aid of European funds. A growing range of venture capital funds is also being developed to assist new and established businesses across Wales, including those managed by young entrepreneurs. Of particular relevance here is the WDA's Xenos Business Angels scheme and the new funding packages totalling over £10 million which it is introducing with other partners.

In addition, for young entrepreneurs just starting up in business, the Prince's Trust is another useful source of grant and loan assistance.

Arian ar gyfer Mentrwyr Ifanc

Mick Bates: Pa arian sydd ar gael i ddarparu unedau busnes cychwynnol a chyfalaf mentro ar gyfer mentrwyr ifanc yng nghefn gwlad Cymru? (WAQ341JS)

Rhodri Morgan: Mae nifer o asiantaethau, gan gynnwys Awdurdod Datblygu Cymru, yr awdurdodau lleol ac asiantaethau menter, yn darparu unedau busnes bach yng nghefn gwlad Cymru, a hynny'n aml gyda chymorth cronfeydd Ewrop. Mae nifer cynyddol o gronfeydd cyfalaf mentro hefyd yn cael eu datblygu i helpu busnesau newydd a'r rhai sydd wedi ennill eu plwyf ledled Cymru, gan gynnwys y rheini a reolir gan fentrwyr ifanc. O bwys arbennig yma mae cynllun Angylion Busnes Xenos yr Awdurdod Datblygu a'r pecynnau cyllido newydd gwerth dros £10 miliwn y mae'n eu cyflwyno gyda phartneriaid eraill.

Yn ogystal, i fentrwyr ifanc sy'n cychwyn mewn busnes, mae Ymddiriedolaeth y Tywysog yn ffynhonnell fuddiol arall ar gyfer grantiau a benthyciadau.

Cardiff Bay (Groundwater Arrangements)

Peter Black: When is it envisaged that the groundwater arrangements to prevent flooding in the Cardiff Bay area will be completed? (WAQ345JS)

Rhodri Morgan: The Cardiff Bay Development Corporation has submitted proposals for a groundwater de-watering scheme. A decision is expected early in July. The Corporation aims to complete the scheme before practical completion of the barrage in November.

Bae Caerdydd (Trefniadau Dŵr Daear)

Peter Black: Pryd y rhagwelir y bydd y trefniadau dŵr daear i atal llifogydd yn ardal Bae Caerdydd wedi'u cwblhau? (WAQ345JS)

Rhodri Morgan: Mae Corfforaeth Datblygu Bae Caerdydd wedi cyflwyno cynigion ar gyfer cynllun i gael gwared â dŵr daear. Disgwylir penderfyniad yn gynnar ym mis Gorffennaf. Nod y Gorfforaeth yw cwblhau'r cynllun cyn cwblhad ymarferol y morglawdd ym mis Tachwedd.

Cardiff Bay Barrage (Flooding Lake)

Peter Black: What is the current proposal with regards to the flooding of the lake behind the Cardiff Bay barrage and what influence has the state of readiness of the Gwent levels compensation scheme and the breeding season of native birdlife on the timing of the flooding programme? (WAQ301JS)

The Secretary for Economic Development (Rhodri Morgan): The understanding with the European Commission is that Cardiff Bay remains tidal until all the reserve works except about 5 per cent in an area described as Uskmouth Phase 2 are completed. Those works will be completed before impoundment.

Impoundment is an operational matter for the corporation and I have asked the chief executive to respond directly on the planned timetable. A copy of his reply will be placed in the Library.

Morglawdd Bae Caerdydd (Llenwi'r Llyn)

Peter Black: Beth yw'r cynnig cyfredol ar gyfer llenwi'r llyn y tu ôl i forglawdd Bae Caerdydd a pha ddylanwad a gaiff parodrwydd cynllun iawndal gwastadeddau Gwent a thymor bridio yr adar cynhenid ar amseriad y rhaglen ar gyfer llenwi'r llyn? (WAQ301JS)

Yr Ysgrifennydd Datblygu Economaidd (Rhodri Morgan): Y ddealltwriaeth gyda'r Comisiwn Ewropeaidd yw bod Bae Caerdydd i barhau yn ardal lle ceir llanw a thrai hyd nes y bydd yr holl waith ar y warchodfa ar wahân i tua 5 y cant mewn ardal a ddisgrifir fel Aber-wysg Cam 2 wedi ei gwblhau. Bydd y gwaith yma wedi ei gwblhau cyn yr amgáu.

Mater gweithredol i'r gorfforaeth yw'r amgáu ac yr wyf wedi gofyn i'r prif weithredwr ymateb yn uniongyrchol ar yr amserlen fwriedig. Rhoddir copi o'i ateb yn y Llyfrgell.

Gwent Levels Compensation Scheme

Peter Black: What is the total cost of the Gwent levels compensation scheme, the projected annual running costs of the scheme and from which budgets will these costs be met? (WAQ300JS)

Rhodri Morgan: The total cost of the Gwent levels compensation scheme is currently estimated at approximately £9 million. Once construction on the Reserve has been completed it will transfer to the Countryside Council for Wales. The CCW have estimated that the cost of operating and maintaining the reserve will be approximately £170,000 per annum but the full cost implications will not be established until the reserve has been completed. The corporation will be responsible for funding the operating and maintenance costs until its wind-up date of 31 March 2000. After 31 March 2000, funding will be a matter to be decided by the Assembly.

Cynllun Iawndal Gwastadeddau Gwent

Peter Black: Beth yw cyfanswm cost cynllun iawndal gwastadeddau Gwent, yr amcangyfrif o gostau rhedeg blynyddol y cynllun ac o ba gyllideb y caiff y costau hyn eu talu? (WAQ300JS)

Rhodri Morgan: Ar hyn o bryd, amcangyfrifir y bydd cyfanswm cost cynllun iawndal gwastadeddau Gwent oddeutu £9 miliwn. Unwaith y bydd y gwaith o adeiladu'r Warchodfa wedi ei gwblhau, bydd yn trosglwyddo i Gyngor Cefn Gwlad Cymru. Mae'r Cyngor Cefn Gwlad wedi amcangyfrif y bydd y gost o redeg a chynnal y warchodfa oddeutu £170,000 y flwyddyn ond ni fydd y goblygiadau llawn o ran costau yn sicr hyd nes y bydd y warchodfa wedi ei chwblhau. Y gorfforaeth fydd yn gyfrifol am gyllido'r costau rhedeg a chynnal tan ei dyddiad dirwyn-i-ben ar 31 Mawrth 2000. Ar ôl 31 Mawrth 2000, mater i'w benderfynu gan y Cynulliad fydd y cyllido.

Cwestiynau i'r Ysgrifennydd Amaethyddiaeth a Datblygu Gwledig Questions to the Secretary for Agriculture and Rural Development

Organic Farming Schemes

Kirsty Williams: Will Christine Gwyther give a precise time that Welsh farmers will be able to apply for organic farming schemes and give an explanation of the delay in implementing this scheme in Wales? (WAQ342VB)

The Secretary for Agriculture and Rural Development (Christine Gwyther): The Organic Aid Scheme, which provides direct financial support for conversion to organic farming, has been available to farmers in Wales since 1994. The main recommendation of a UK wide review of the scheme was that payments rates should be increased. That increase is subject to approval by the European Commission but I hope to be able to make an announcement in the near future.

Cynlluniau Ffermio Organig

Kirsty Williams: A wna Christine Gwyther roi amser penodol pan fydd ffermwyr Cymru'n gallu gwneud cais am gynlluniau ffermio organig a rhoi esboniad am yr oedi cyn gweithredu'r cynllun hwn yng Nghymru? (WAQ342VB)

Yr Ysgrifennydd Amaethyddiaeth a Datblygu Gwledig (Christine Gwyther) : Mae'r Cynllun Cymorth Organig, sy'n cynnig cefnogaeth ariannol uniongyrchol i newid i ffermio organig, wedi bod ar gael i ffermwyr yng Nghymru er 1994. Prif argymhelliad adolygiad ar y cynllun drwy'r DU gyfan oedd y dylid cynyddu cyfraddau'r taliadau. Rhaid i'r cynnydd hwnnw gael ei gymeradwyo gan Y Comisiwn Ewropeaidd ond gobeithiaf allu gwneud cyhoeddiad yn y dyfodol agos.

Cwestiynau i'r Ysgrifennydd Addysg a Hyfforddiant Ôl 16 Questions to the Secretary for Post 16 Education and Training

World Mathematical Year

Gareth Jones: What arrangements are there for the participation of people in Wales in the UNESCO World Mathematical Year 2000? (WAQ343VB)

The Secretary for Post-16 Education and Training (Tom Middlehurst): Wales is actively involved in planning for the UK Maths Year 2000, which is intended to complement UNESCO's designated world mathematics year. Assembly officials are working closely with colleagues in other Government departments and will be involving local education authorities in Wales as these preparations continue. I shall be reporting on progress to the Pre 16 Education Committee in due course.

Blwyddyn Fathemategol y Byd

Gareth Jones: Pa drefniadau sydd ar y gweill fel y bo pobl yng Nghymru yn cymryd rhan ym Mlwyddyn Fathemategol y Byd 2000 a drefnir gan UNESCO? (WAQ343VB)

Yr Ysgrifennydd Addysg a Hyfforddiant Ôl-16 (Tom Middlehurst): Ar hyn o bryd, mae Cymru wrthi'n ddygn yn cynllunio ar gyfer Blwyddyn Fathemategol y DU 2000, a fwriadwyd i gyd-fynd â blwyddyn fathemategol y byd a bennwyd gan UNESCO. Mae swyddogion y Cynulliad yn gweithio'n agos gyda chydweithwyr mewn adrannau eraill o eiddo'r Llywodraeth a byddant yn tynnu awdurdodau addysg lleol Cymru i mewn hefyd wrth i'r paratodau hyn fynd rhagddynt. Byddaf yn rhoi adroddiad ar hynt y cynllun i'r Pwyllgor Addysg Cyn 16 maes o law.

Cwestiynau i'r Ysgrifennydd Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol Questions to the Secretary for Health and Social Services

Health Service Pensions (Employers' Contributions)

Nick Bourne: What are the costs of employers' contributions to health service pensions expected to be in the year from April 2000, and what will they be from April 1999 to April 2000? (WAQ346VB)

Jane Hutt: Administration of the NHS Superannuation Scheme is not a devolved matter, and the only organisation in a position to make informed estimates of costs of pensions contributions is the NHS Pensions Agency, a Next Steps Agency of the Department of Health. On this occasion we have been advised by them as follows:

The NHS Pensions Agency does not produce its financial forecasts on a region by region basis. Therefore, the estimate of employer contributions from the NHS in Wales is based on the overall forecast for England and Wales, split according to the perceived pattern of contributions for the 1998-99 financial year.

The costs of employers' contributions to health service pensions in Wales are expected to be £41,451,000 in 1999-2000, rising to £53,368,000 in 2000-2001. The forecast for 2000-2001 incorporates the increase from 4 per cent to 5 per cent in the employer contribution rate which takes effect from April 2000.

Pensiynau'r Gwasanaeth Iechyd (Cyfraniadau Cyflogwyr)

Nick Bourne: Faint fydd costau arfaethedig cyfraniadau cyflogwyr i bensiynau'r gwasanaeth iechyd yn y flwyddyn yn dechrau Ebrill 2000 a faint fyddant o Ebrill 1999 hyd Ebrill 2000? (WAQ346VB)

Jane Hutt: Nid yw gweinyddiaeth Cynllun Pensiwn yr NHS yn fater sydd wedi ei ddatganoli, a'r unig sefydliad sydd mewn sefyllfa i roi amcangyfrifon dilys o gostau'r cyfraniadau pensiwn yw Asiantaeth Bensiynau'r NHS, un o Asiantaethau Camau Nesaf yr Adran Iechyd. Ar yr achlysur hwn, cawsom y wybodaeth a ganlyn ganddynt:

Nid yw Asiantaeth Bensiynau'r NHS yn cynhyrchu ei rhagolygon ariannol ar sail rhanbarthau unigol. Felly, mae'r amcangyfrif o gyfraniadau cyflogwyr NHS yng Nghymru wedi ei seilio ar y blaenamcan i Gymru a Lloegr gyda'i gilydd, wedi ei rannu yn ôl y patrwm cyfraniadau disgwylidiedig am flwyddyn ariannol 1998-99.

Disgwylir i gostau cyfraniadau cyflogwyr at bensiynau'r gwasanaeth iechyd yng Nghymru fod yn £41,451,000 yn 1999-2000, gan godi i £53,368,000 yn 2000-2001. Mae'r blaenamcan ar gyfer 2000-2001 yn ymgorffori'r cynnydd o 4 y cant i 5 y cant yng nghyfradd cyfraniadau'r cyflogwr sy'n dod i rym o fis Ebrill 2000 ymlaen.

Water Fluoridation

Nick Bourne: What plans are there to protect dental health with fluoridation of the water throughout Wales? (WAQ347VB)

Jane Hutt: The public health Green Paper, 'Better Health, Better Wales', published in May 1998 sought views on the issue of whether or not water supplies should be fluoridated where there is support for such action by the majority of people locally. The majority of the

responses received were in support of fluoridation although there was also some opposition. I intend to bring forward proposals for the Assembly's consideration as soon as possible.

Fflworideiddio Dŵr

Nick Bourne: Pa gynlluniau sydd yna i ddiogelu iechyd deintyddol drwy fflworideiddio'r dŵr ledled Cymru? (WAQ347VB)

Jane Hutt: Ceisiai'r Papur Gwyrdd ar iechyd cyhoeddus, 'Gwell Iechyd, Gwell Cymru', a gyhoeddwyd ym mis Mai 1998, farn pobl i ganfod a oeddynt yn awyddus i gyflenwadau dŵr gael ei fflworideiddio ai peidio lle bo camau o'r fath yn cael eu cefnogi gan fwyafrif o bobl yn lleol. Yr oedd mwyafrif o'r ymatebion a gafwyd o blaid fflworideiddio er bod yna hefyd beth gwrthwynebiad. Bwriadaf gyflwyno cynigion gerbron y Cynulliad i'w hystyried ganddo cyn gynted â phosibl.

Health Promotion in Wales

Nick Bourne: How much money will be spent on health promotion throughout Wales in the year from April 1999 to April 2000, and how does this compare with the amounts spent from April 1998 to April 1999? (WAQ349VB)

Jane Hutt: Planned expenditure on health promotion in Wales for the period 1 April, 1999 to 31 March, 2000 is £10.057 million. The corresponding expenditure figure for the period 1 April, 1998 to 31 March, 1999 was £9.763 million. Of total expenditure, £4.956 million was paid to GPs in return for the delivery of approved programmes of health promotion activities. On the basis that GPs maintain 1998-99 levels of activity on health promotion, expenditure in 1999-2000 can be expected to be in the region of £5.2 million.

Expenditure information currently available is limited to specific budgets used by health authorities and the Assembly to fund health promotion services and activities. The expenditure information does not include the cost of the time of health and other professionals who contribute to health promotion activity routinely and opportunistically as a part of their day-to-day duties.

The Review of Health Promotion Arrangements in Wales recommended that an audit of expenditure in health promotion should be undertaken to establish a baseline of investment in health promotion resources and programmes by the NHS and local government. Work is in hand to develop an audit tool for this purpose.

Hybu Iechyd yng Nghymru

Nick Bourne: Faint o arian fydd yn cael ei wario ar hybu iechyd ledled Cymru yn y flwyddyn o Ebrill 1999 hyd Ebrill 2000, a sut mae hyn yn cymharu â'r symiau a wariwyd o Ebrill 1998 hyd Ebrill 1999? (WAQ349VB)

Jane Hutt: Mae'r gwariant sydd wedi ei gynllunio ar hybu iechyd yng Nghymru dros y cyfnod 1 Ebrill, 1999 hyd 31 Mawrth, 2000 yn £10.057 miliwn. Y ffigwr gwariant cyfatebol am y cyfnod 1 Ebrill 1998 hyd 31 Mawrth, 1999 oedd £9.763 miliwn. O'r cyfanswm gwariant, talwyd £4.956 miliwn i feddygon teulu yn gyfnewid am ddarparu rhaglenni o weithgareddau hybu iechyd oedd wedi eu cymeradwyo. Ar y sail y bydd meddygon teulu yn cadw at lefelau gweithgarwch 1998-99 ar hybu iechyd, gellir disgwyl i'r gwariant yn 1999-2000 fod oddeutu £5.2 miliwn.

Mae'r wybodaeth sydd ar gael am wariant ar hyn o bryd wedi ei chyfyngu i gyllidebau penodol a ddefnyddir gan awdurdodau iechyd a'r Cynulliad i gyllido gwasanaethau a

gweithgareddau hybu iechyd. Nid yw'r wybodaeth yn cynnwys cost amser gweithwyr iechyd a gweithwyr proffesiynol eraill sy'n cyfrannu at weithgarwch hybu iechyd fel mater o drefn a phan gyfyd y cyfle fel rhan o'u dyletswyddau beunyddiol.

Argymhellodd yr Arolwg ar Drefniadaeth Hybu Iechyd yng Nghymru y dylid ymgymryd ag archwiliad o'r gwariant hybu iechyd i ganfod data sylfaen am y buddsoddi mewn adnoddau a rhaglenni hybu iechyd gan yr NHS a llywodraeth leol. Mae gwaith ar y gweill i ddatblygu arf awdit i'r diben hwn.

Junior Doctors (Reducing Working Hours)

Nick Bourne: What will the cost be of reducing working hours of junior doctors in Wales in the year from April 1999 to April 2000? (WAQ 350VB)

Jane Hutt: Trusts are not required to identify separately costs incurred in reducing the hours of junior doctors in Wales. The junior doctor representative, whose appointment I announced recently, will be working with trusts to identify the measures needed to reduce juniors' hours to the present target of 56 hours.

Meddygon Ifanc (Lleihau Oriau Gwaith)

Nick Bourne: Beth fydd cost lleihau oriau gwaith meddygon ifanc yng Nghymru o Ebrill 1999 hyd Ebrill 2000? (WAQ350VB)

Jane Hutt: Nid yw'n ofynnol i'r ymddiriedolaethau nodi cost lleihau oriau gwaith meddygon ifanc yng Nghymru ar wahân. Bydd cynrychiolydd y meddygon ifanc, penodiad a gyhoeddais yn ddiweddar, yn gweithio gyda'r ymddiriedolaethau i nodi pa fesurau sy'n ofynnol i leihau oriau'r meddygon ifanc i'r targed presennol o 56 awr.

Medical Negligence Claims (Costs to Health Service)

Nick Bourne: What will the costs to the health service in Wales be for medical negligence claims in the year 1999-2000 and what were those costs in the year 1998-1999? (WAQ351VB)

Jane Hutt: The cost of medical negligence claims in 1998-1999 as disclosed in the un-audited annual accounts was a £12.8 million charge to expenditure. Total balance sheet provisions for medical negligence claims amounted to £101.7 million at 31 March 1999. Current estimates are that up to £58.5 million may be paid out in 1999-2000.

Hawliadau Esgeulustod Meddygol (Cost i'r Gwasanaeth Iechyd)

Nick Bourne: Beth fydd cost hawliadau esgeulustod meddygol yn y flwyddyn 1999-2000 i'r gwasanaeth iechyd yng Nghymru, a beth oedd y costau hynny yn y flwyddyn 1998-1999? (WAQ351VB)

Jane Hutt: Cost yr hawliadau esgeulustod meddygol yn 1998-1999, fel y'u dadlennwyd yn y cyfrifon ariannol nad ydynt wedi eu harchwilio, oedd tâl o £12.8 miliwn a godwyd yn erbyn y gwariant. Yr oedd cyfanswm y darpariaethau ar y fantolen am hawliadau esgeulustod meddygol yn £101.7 miliwn ar 31 Mawrth 1999. Yr amcangyfrifon cyfredol yw y gallai hyd at £58.5 miliwn gael ei dalu allan yn 1999-2000.

NHS Trusts (Monitoring and Management of Sick Leave)

Peter Black: What guidance is issued to NHS trusts in Wales on the monitoring and management of sick leave? (WAQ299JS)

Jane Hutt: NHS trusts are responsible for putting in place what procedures and policies they deem appropriate in local circumstances. The issue of whether central guidance would be useful will be looked at in the context of implementing the human resources strategy for the NHS in Wales.

Ymddiriedolaethau'r NHS (Monitro a Rheoli Absenoldeb Salwch)

Peter Black: Pa ganllawiau sy'n cael eu rhoi i ymddiriedolaethau'r NHS ynghylch monitro a rheoli absenoldeb salwch? (WAQ299JS)

Jane Hutt: Mae ymddiriedolaethau'r NHS yn gyfrifol am sefydlu pa weithdrefnau a pholisïau a fernir yn briodol ganddynt yn ôl amgylchiadau lleol. Bydd pa un y byddai canllawiau canolog o fudd yn fater yr edrychir arno yng nghyd-destun rhoi'r strategaeth adnoddau dynol ar gyfer yr NHS ar waith yng Nghymru.

Cwestiynau i Ysgrifennydd yr Amgylchedd a Llywodraeth Leol Questions to the Secretary for the Environment and Local Government

Rough Sleeping Estimates

Peter Black: What estimates exist for the number of people sleeping rough in Wales on any single night? (WAQ344VB)

The Secretary for the Environment and Local Government (Peter Law): The most comprehensive snapshot survey of the numbers of people sleeping rough throughout Wales was commissioned by the Welsh Office and undertaken by The Special Needs Housing Advisory Service in Wales and Shelter Cymru. This identified 86 people sleeping rough over three nights in the week of 31 January to 6 February 1996 in 15 locations throughout Wales. A cross section of urban areas, valley communities, rural areas and coastal resorts were covered in the survey. Figures for Cardiff were not collected for the survey.

Since then surveys have concentrated on the numbers and needs of people sleeping rough in specific areas.

Since 1997 the following information in relation to snapshot surveys is available:

Caerphilly borough: eight people found sleeping rough over three nights in November 1997, 11 people sleeping rough on three nights in August 1998 and nobody found sleeping rough on three nights in January and February 1999.

Cardiff: 12 people were estimated to be sleeping rough in a 24 hour survey in Cardiff city centre on 24 September 1997, and 20 people were estimated to be sleeping rough in a 24 hour survey on 24 September 1998.

Gwynedd: 38 people sleeping rough on night time head counts once a week over a ten week period in 1997, and 34 people sleeping rough through head counts once or twice a week over ten weeks in 1998.

Merthyr: one person was found sleeping rough on three nights in October 1997.

Newport borough: 13 people found sleeping rough on three nights in August 1998, and five people sleeping rough on three nights in January and February 1999.

Rhondda Cynon Taff: two people found sleeping rough on three nights in March 1997, and five people found sleeping rough on one night in July 1998.

Wrexham: a survey is conducted one night a month in Wrexham which has found one person sleeping rough in January 1999, two in February 1999, three in March 1999, seven in April 1999 and two in May 1999.

It is understood that the provisional findings of a survey undertaken by Shelter Cymru found that 18 agencies working with homeless people in Wales estimated approximately 150 people were sleeping rough on 6 May 1999. However, at the present time the detailed findings of this survey have yet to be made available.

Amcangyfrifon o'r Niferoedd sy'n Cysgu ar y Strydoedd

Peter Black: Beth yw'r amcangyfrifon ar gyfer nifer y bobl sy'n cysgu ar y strydoedd yng Nghymru ar unrhyw noson benodol? (WAQ344VB)

Ysgrifennydd yr Amgylchedd a Llywodraeth Leol (Peter Law) : Comisiynwyd yr arolwg cipddarlun mwyaf cynhwysfawr o nifer y bobl sy'n cysgu ar y strydoedd ledled Cymru gan y Swyddfa Gymreig ac fe'i cynhaliwyd gan y Gwasanaeth Ymgynghorol ar Anghenion Arbennig ym Maes Tai yng Nghymru a Shelter Cymru. Canfu'r arolwg 86 o bobl yn cysgu ar y strydoedd dros dair noson yn ystod wythnos 31 Ionawr hyd 6 Chwefror 1996 mewn 15 lleoliad ledled Cymru. Cynhaliwyd yr arolwg mewn trawsdoriad o ardaloedd trefol, cymunedau yn y cymoedd, ardaloedd cefn gwlad a threfi glan môr. Ni chasglwyd ffigyrau am Gaerdydd yn yr arolwg.

Ers hynny, mae arolygon wedi canolbwyntio ar nifer y bobl sy'n cysgu ar y strydoedd mewn ardaloedd penodol, a'u hanghenion hwy.

Er 1997, mae'r wybodaeth isod ar gael yng nghyswllt arolygon cipddarlun:

Bwrdeistref Caerffili: cafwyd wyth o bobl yn cysgu ar y strydoedd dros dair noson ym mis Tachwedd 1997, 11 person yn cysgu ar y strydoedd ar dair noson ym mis Awst 1998 ac ni chafwyd neb yn cysgu ar y strydoedd ar dair noson yn Ionawr a Chwefror 1999.

Caerdydd: amcangyfrifwyd bod 12 o bobl yn cysgu ar y strydoedd mewn arolwg 24 awr yng nghanol dinas Caerdydd ar 24 Medi 1997, ac amcangyfrifwyd bod 20 o bobl yn cysgu ar y strydoedd mewn arolwg 24 awr ar 24 Medi 1998.

Gwynedd: cafwyd drwy gyfrif pennau unwaith yr wythnos dros gyfnod o ddeg wythnos yn 1997 bod 38 o bobl yn cysgu ar y strydoedd, a chafwyd drwy gyfrif pennau unwaith neu ddwywaith yr wythnos dros ddeg wythnos yn 1998 bod 34 o bobl yn cysgu ar y stryd.

Merthyr: cafwyd un person yn cysgu ar y strydoedd ar dair noson ym mis Hydref 1997.

Bwrdeistref Casnewydd: cafwyd 13 o bobl yn cysgu ar y strydoedd ar dair noson ym mis Awst 1998, a chafwyd pum person yn cysgu ar y strydoedd ar dair noson ym mis Ionawr a mis Chwefror 1999.

Rhondda Cynon Taf: cafwyd bod dau berson yn cysgu ar y strydoedd ar dair noson ym mis Mawrth 1997, a chafwyd pum person yn cysgu ar y strydoedd ar un noson ym mis Gorffennaf 1998.

Wrecsam: cynhelir arolwg un noson y mis yn Wrecsam sydd wedi canfod un person yn cysgu ar y strydoedd ym mis Ionawr 1999, dau ym mis Chwefror 1999, tri ym mis Mawrth 1999, saith ym mis Ebrill 1999 a dau ym mis Mai 1999.

Deellir bod canfyddiadau cychwynnol arolwg a gynhaliwyd gan Shelter Cymru wedi canfod bod 18 asiantaeth sy'n gweithio gyda phobl ddigartref yng Nghymru yn amcangyfrif bod oddeutu 150 o bobl yn cysgu ar y strydoedd ar 6 Mai 1999. Fodd bynnag, ar hyn o bryd nid yw canfyddiadau manwl yr arolwg hwn ar gael eto.

Landfill Tax (Welsh Local Authorities)

Peter Black: How much landfill tax was paid by each Welsh local authority in each of 1997-1998 and 1998-1999 and how much of that tax was committed to environmental projects in each council area for each of those years? (WAQ 293VB) [R]

Peter Law: Collection of landfill tax is a matter for HM Customs & Excise. The Welsh Office has no information on such expenditure by local authorities.

Treth Tirlenwi (Awdurdodau Lleol Cymru)

Peter Black: Faint o dreth tirlenwi a dalwyd gan bob un o awdurdodau lleol Cymru ym 1997-1998 a 1998-1999 a faint o'r dreth tirlenwi honno a gafodd ei neilltuo ar gyfer prosiectau amgylcheddol yn ardal pob un o'r cynghorau yn y blynyddoedd hynny. (WAQ293VB) [R]

Peter Law: Mater i Dollau Tramor a Chartref EM yw casglu'r dreth tirlenwi. Nid oes gan y Swyddfa Gymreig unrhyw wybodaeth am wariant o'r fath gan awdurdodau lleol.